



Polisi a Phrotocolau Ymweliadau Cartrefi Gofal Preswyl COVID-19

Gorffennaf 2020

Datganiad Polisi:

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae'r timau gofal preswyl wedi bod yn gweithio'n galed iawn i leihau effaith y coronafeirws yn ein cartrefi. Diolch i'r cyfyngiadau caeth sydd wedi bod ar waith gennym a gwaith ein timau yn y cartrefi gofal, nid ydym wedi cael unrhyw achosion newydd a gofnodwyd ers sawl wythnos.

Rydym wedi cadw'n agos at fesurau'r cyfnod cloi sy'n berthnasol i gymunedau lleol ac i gartrefi gofal yn benodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau cymdeithasol ac rydym o'r farn mai dyma'r adeg priodol i lacio cyfyngiadau i alluogi perthnasau neu ffrindiau agos i ymweld.

Mae'n rhaid i ni flaenoriaethu diogelwch ein preswylwyr a chydweithwyr yn ein cartrefi ac rydym am wneud popeth yn ein gallu i leihau'r risg o drosglwyddo. Gyda'r diben hwn rydym yn cynllunio dull graddol o ailgyflwyno ymweliadau o 17 Gorffennaf.

Mae COVID-19 yn eithriadol o heintus – gall yr haint gael ei drosglwyddo'n hawdd iawn o un person i'r llall ac mae'r defnydd o fannau cyhoeddus (yn enwedig dan do) a chyswllt agos yn cynyddu'r risg honno. Bydd y broses o ailgyflwyno trefniadau cymdeithasol, gan gynnwys ymweliadau, yn cael ei gwneud yn ofalus iawn.

I leihau'r risgiau, byddwn yn parhau i roi sylw gofalus iawn i'r Cyngor Gwyddonol a Chanllawiau'r Llywodraeth ac yn defnyddio mesurau Rheoli Heintiau llym pan fydd ymweliadau'n cael eu hail-gyflwyno.

Bydd dull graddol o ailgyflwyno ymweliadau, gyda cham 2 (yn amodol ar gyngor / arweiniad gwyddonol) yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2020.

	Cam 1 (cyn llacio)	Cam 2 (Yn amodol ar Gyngor / Arweiniad Gwyddonol)	Cam 3 (Yn amodol ar Gyngor / Arweiniad Gwyddonol)	Cam 4 (Yn amodol ar Gyngor / Arweiniad Gwyddonol)
Ymweld	Ymweliadau Hanfodol (Diwedd Oes / straen / trallod)	Ymweliadau hanfodol Ymweliadau yn yr ardd Uchafswm o ddau ymwelydd (o'r un cartref) Dim plant bach	Ymweliadau Hanfodol Ymweliadau yn yr ardd (gydag uchafswm o 4 ymwelydd o'r un cartref) Dim plant bach Ymweliad Dan Do gan un person dynodedig	Rhaglen reoledig o ymweliadau yn yr ardd ac ymweliadau dan do. Plant yn ôl disgrisiwn y rheolwr
Gofynnol	Asesiad risg a chydysniad y preswlydd Ymweliadau a drefnwyd Rhaid i ymwelwyr gynnal pellter corfforol o 2 fetr. Rhaid i staff wisgo cyfarpar diogelu personol Rhaid glanhau'r ardal ymwelwyr yn drylwyr ar ôl pob ymweliad			
Lleoliadau	Cartrefi heb unrhyw achosion Cartrefi heb unrhyw achosion am fwy na 28 diwrnod (<i>ddwywaith y cyfnod magu</i>)			

Protocol Ymwelwyr COVID-19:

Dim ond yn y cartrefi hynny sydd wedi bod heb achos o haint am fwy na 28 diwrnod y caiff ymweliadau eu caniatáu.

Bydd profion yn parhau ac os bydd unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn y cartref yn cael prawf COVID-19 positif caiff ymweliadau eu gohirio nes bod y cartref wedi bod heb achos o haint am 28 diwrnod.

Ni fydd ffrindiau neu berthnasau y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu, gan gynnwys y rheiny a nodwyd fel cyswllt i achos positif o dan y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu, y rheiny sy'n hunanynysu y tu allan i'r gofynion profi, olrhain, diogelu e.e. cwarantîn ar ôl teithio dramor neu'r rheiny sydd â heintiau eraill yn gallu ymweld tan ar ôl y cyfnod ynysu 14 diwrnod.

Dyma'r mathau o ymweliad a fydd yn cael eu cynnig ar y dechrau:

- ymweliad ffenestr lle gall yr ymwelydd siarad â'i berthynas / ffrind drwy ffenestr agored ar lawr gwaelod y cartref. Bydd angen cynnal pellter o ddau fetr o'r ffenestr.

- ymweliad awyr agored lle bydd gofyn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr.

Bydd y math o ymweliad sydd fwyaf priodol yn cael ei benderfynu drwy asesiad risg a bydd yn ystyried anghenion presennol y preswlydd a'i allu i gydymffurfio â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Cynhelir dadansoddiad risg / budd ar gyfer pob preswlydd. Nid yw'n ddiogel rhagdybio bod ymweld bob amser o fudd i'r preswlydd – prif nod unrhyw ymweliad yw gwella lles y preswlydd. Os bydd ymweliadau yn achosi trallod, caiff y dadansoddiad risg / budd ei ailystyried gyda mewnbwn ymwelwyr allweddol a'r preswlydd ond lles y preswlydd fydd wrth wraidd yr holl broses o wneud penderfyniadau.

Gall ymweliadau a drefnwyd gael eu gohirio os nad yw'r lefelau staffio yn ddigonol i gefnogi trefniadau ymweld diogel.

Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, bydd nifer o fesurau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr ymweliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel:

- Caiff asesiad risg ei baratoi ar gyfer pob preswlydd ac ar gyfer pob math o ymweliad a fydd yn ystyried gallu'r preswlydd i wneud penderfyniadau (fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005).
- Bydd angen trefnu ymweliadau ymlaen llaw drwy gysylltu â'r cartref
- Bydd ardal allanol y cartref yn cael ei threfnu i helpu i hwyluso ymweliadau diogel (h.y. ardaloedd penodol lle gellir cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, gorchuddion fel tentiau ac ymbarelau gardd i ddiogelu pobl rhag y tywydd).
- Cyfyngir ymweliadau i 20 munud unwaith yr wythnos ar gyfer pob preswlydd er mwyn ein galluogi i reoli diogelwch yn ogystal â chefnogi glanhau ychwanegol rhwng ymweliadau
- Bydd preifatrwydd yn cael ei barchu ond bydd aelod o staff yn y cyffiniau drwy gydol yr ymweliad os tybir bod hynny'n angenrheidiol
- Bydd yn ofynnol i ymwelwyr gytuno i broses sgrinio sy'n cynnwys ymateb i holiadur iechyd a llofnodi i dderbyn y protocol.
- Ni ellir newid yr amseroedd ymweld a ddyrennir heb gytundeb y rheolwr ac nid ar fyr rybudd
- Os bydd ymwelwyr yn cyrraedd yn hwyr ni ellir ymestyn yr amser ymweld
- Bydd nifer y bobl y caniateir iddynt ymweld yn unol â'r dull cam wrth gam
- Nid yw plant bach yn gallu ymweld tan Cam 4, a dim ond ar ddisgresiwn Rheolwr y Cartref Gofal
- Ni fydd ymwelwyr yn gallu dod i mewn i'r adeilad tan Cam 3 ac yna dim ond ar ôl iddynt gael eu tymheredd wedi'i gymryd.
- Os bydd ymwelwyr yn dangos unrhyw symptomau o'r coronafeirws, byddant yn cael eu gwrthod (tymheredd uchel, peswch newydd a pharhaus, colli blas neu arogl a theimlad cyffredinol o fod yn ddiegni a sâl).
- Pan fydd ymweliadau yn yr awyr agored a bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cynnal nid oes angen i ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb

- Mae angen gorchuddion wyneb a menig wrth ymweld dan do a gellir eu darparu ar gais.
- Bydd cynhwysydd gwastraff ar gyfer cael gwared ar orchuddion wyneb a menig ar gael i ymwelwyr
- Bydd angen cynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol o hyd, sy'n golygu 'dull dim cyffwrdd' yn ystod ymweliadau. Mae hyn yn golygu dim cwtchys, dal dwylo neu gusanu.
- Ni fydd ymwelwyr yn gallu defnyddio cyfleusterau toiled
- Ni ddarperir lluniaeth yn ystod ymweliadau
- Mae ymwelwyr yn cael eu hannog i beidio â dod ag anrhegion. Rhaid i unrhyw anrheg fod mewn pecyn wedi'i selio y gellir ei sychu ac nad oes angen ei oeri. Lle bernir bod angen, caiff anrhegion eu rhoi mewn cwarantîn mewn man y tu allan am 72 awr.

Cam Un – Gweithdrefnau'r Cyfnod Cloi

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod ar gau i bob ymwelydd ac eithrio'r rhai hanfodol ers canol mis Mawrth. Diolch i chi am eich cefnogaeth wrth beidio ag ymweld yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn gwybod bod hyn wedi bod yn anodd iawn, ond yn hanfodol ac rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn fawr. Wrth i ni geisio ailgyflwyno ymweliadau, rhaid i ni gofio, os bydd unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn y cartref yn cael prawf COVID-19 positif y caiff ymweliadau eu gohirio. Bydd hyn yn golygu troi'n ôl at weithdrefnau'r cyfnod cloi lle caniateir ymweliadau hanfodol yn unig nes bod y cartref wedi bod heb unrhyw achos o haint am 28 diwrnod.

Cam Dau - Protocol Ymweliadau Awyr Agored

Wrth i ni ddechrau cefnogi ymweliadau a reolir ac â chyfyngiad amser i'r cartref gofal, mae eich cefnogaeth barhaus i amddiffyn nid yn unig ein preswylwyr a'n staff, ond hefyd chi fel ymwelwyr a'r gymuned ehangach, yr un mor bwysig. Dim ond ar adegau wedi'u trefnu ymlaen llaw y gellir ymweld, a bydd y rhain yn cael eu cytuno rhyngoch chi, ein preswylwyr a'r cartref gofal. Mae'r trefniant hwn ar waith i sicrhau ein bod yn lleihau nifer y bobl sy'n ymweld â'r cartref, yn enwedig yn yr ardd, ar unrhyw un adeg, er mwyn amddiffyn ein preswylwyr a'n staff.

Cynhelir ymweliadau drwy ffenestr ddynodedig agored neu yn yr ardd. Mae hyn yn lleihau'r risg o rywun sy'n asymptomatig yn dod â'r feirws i'r cartref gofal yn anfwriadol. Mae hwn yn fesur diogelwch allweddol i ddiogelu ein preswylwyr a'n staff.

Bydd yr ymweliadau i ddechrau am gyfnod o ddim mwy nag 20 munud. Gofynnwn am eich cydweithrediad wrth ddilyn y cyfyngiad amser hwn gan fod hyn yn rhoi amser i ni weithredu prosesau atal a rheoli heintiau i lanhau'r ardal ymwelwyr rhwng ymweliadau gan alluogi ymwelwyr eraill i ymweld â'u hanwyliaid yn ddiogel.

Y camau i'w cymryd gan ymwelwyr

- 1) Gofynnir i chi lanhau / rhwbio eich dwylo gyda hylif alcohol, a fydd yn cael ei ddarparu.
- 2) Bydd gofyn i chi ddarllen y protocol ymweld hwn a chwblhau'r ffurflen iechyd.
- 3) Os ydych yn cael masg / menig, maent yn eitemau untro a rhaid eu gwaredu yn y bin a ddarperir. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gofyn i chi wisgo cyfarpar diogelu personol (CDP) arall. Bydd staff wrth law i ddangos i chi sut i roi unrhyw gyfarpar diogelu personol ymlaen ac yn bwysicach, sut i'w dynnu i ffwrdd yn ddiogel, a thrwy hynny leihau unrhyw risg o haint. Rhaid i chi gael gwared ar y CDP yn y bin a ddarperir a diheintio eich dwylo yn syth ar ôl ei dynnu.
- 4) Gofynnir i chi gadw pellter o ddau fetr rhyngoch chi a'ch anwyliaid. Rydym yn deall bod hyn yn anodd i chi a'ch anwyliaid. Fodd bynnag, mae'n ffactor amddiffynnol holl bwysig i chi'ch dau, ein staff a'r gymuned ehangach.
- 5) Gofynnir i chi beidio â dod ag anrhegion i mewn fel parseli bwyd, blodau, balwnau heliwm ac ati. Gwneir hyn i leihau'r cyfle i'r feirws gael ei gario i mewn i'r cartref gofal a chael ei drosglwyddo'n ddiarwybod i'ch anwyliaid.
- 6) wrth i chi adael yr ardal ymwelwyr, defnyddiwch yr hylif alcohol sy'n cael ei ddarparu i lanhau eich dwylo.

Pethau i'w hystyried

Er y bydd llawer ohonoch wedi defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad â'ch anwyliaid, nid ydynt wedi eich gweld wyneb yn wyneb am nifer o wythnosau ac efallai y byddwch eisiau cyffwrdd neu roi cwtsh i'ch gilydd. Efallai y bydd yn cymryd amser iddyn nhw, ac i chi, i addasu i'r gofynion newydd e.e. cadw pellter o ddau fetr. Ceisiwch annog a chefnogi eich anwyliaid i gadw pellter cymdeithasol.

Efallai eich bod chi neu'ch anwyliaid wedi newid yn gorfforol ac yn feddyliol a gall gymryd amser i chi addasu. Mae croeso i chi drafod unrhyw bryderon am hyn gyda'r staff. Rydyn ni yma i'ch cefnogi!

Ffocws ar y Dyfodol

Byddwn bob amser yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran ymweliadau. I ddechrau, mae'r canllawiau'n caniatáu i bob preswlydd gael dau ymwelydd dynodedig bob wythnos, yn yr ardal y tu allan o'r cartref gofal. Rydym yn defnyddio'r dull rhagofalus hwn er mwyn ceisio amddiffyn eich anwyliaid.

Os bydd y canllawiau hyn yn newid byddwn yn eu rhoi ar waith. Gallai hyn gynnwys:

- 1) rhoi'r gorau i ymweliadau os bydd cynnydd sydyn yn y feirws neu achos yn y gymuned neu'r cartref gofal.
- 2) ymestyn nifer yr ymwelwyr neu'r cyfnod amser, os byddwn yn parhau i weld lleihad yn y feirws ar draws y rhanbarth.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am bob newid wrth iddo ddigwydd a sut mae'n effeithio ar ein preswylwyr ac arnoch chi fel aelod o'r teulu.

Cam Tri - Protocol Ymweld Dan Do

Ar y pwynt hwn, byddwn yn cyflwyno ymweliadau a reolir gyda chyfyngiad amser y tu mewn i'r cartref gofal. Mae eich cefnogaeth barhaus i amddiffyn nid yn unig ein preswylwyr a'n staff, ond hefyd chi fel ymwelwyr a'r gymuned ehangach, yr un mor bwysig.

Mae'n hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn mai dim ond ar adegau a drefnir ymlaen llaw y cynhelir ymweliadau. Bydd y rhain yn cael eu cytuno ar y cyd rhyngoch chi, ein preswylwyr a'r cartref gofal. Mae'r trefniant hwn ar waith i sicrhau ein bod yn lleihau nifer y bobl y tu mewn i'r cartref gofal ar unrhyw un adeg, er mwyn amddiffyn ein preswylwyr a'n staff.

Bydd ymweliadau'n digwydd mewn ardal ddynodedig yn y cartref gofal. Mae hyn yn lleihau'r risg o rywun sy'n asymptomatig yn dod â'r feirws yn ddyfnach i'r cyfleuster yn anfwriadol. Mae hwn yn fesur diogelwch holl bwysig i amddiffyn eich anwyliaid, y preswylwyr eraill a'n staff.

Bydd yr ymweliadau i ddechrau am gyfnod o ddim mwy nag 20 munud. Gofynnwn am eich cydweithrediad wrth ddilyn y cyfyngiad amser hwn gan fod hyn yn rhoi amser i ni weithredu prosesau atal a rheoli heintiau trylwyr i lanhau'r ardal ymwelwyr gan alluogi ymwelwyr eraill i ymweld â'u hanwyliaid yn ddiogel.

Y camau i'w cymryd gan ymwelwyr

- 1) Gofynnir i chi fynd i mewn i'r cartref i olchi eich dwylo gyda sebon a dŵr mewn ystafell ymolchi ddynodedig. Dylech olchi eich dwylo am o leiaf 20 eiliad. Dilynwch y canllaw golchi dwylo ar y wal yn y cyfleuster.

- 2) Gofynnir i chi ddarllen y protocol ymweld hwn a chwblhau'r ffurflen iechyd.
- 3) Gofynnir i chi lanhau eich dwylo gyda'r hylif alcohol wrth ddod i mewn.
- 4) Gofynnir i chi ddod â gorchudd wyneb gyda chi. Os nad oes gennych orchudd wyneb, darperir masg. Os ydych yn cael masg / menig, maent yn eitemau untro a rhaid eu gwaredu yn y bin a ddarperir. Os oes angen, efallai y bydd gofyn i chi wisgo cyfarpar diogelu personol (CDP) arall. Bydd staff wrth law i ddangos i chi sut i roi unrhyw gyfarpar diogelu personol ymlaen ac yn bwysicach, sut i'w dynnu i ffwrdd yn ddiogel, a thrwy hynny leihau unrhyw risg o haint.
- 5) Gofynnir i chi gadw pellter o ddau fetr rhyngoch chi a'ch anwyliaid. Rydym yn deall bod hyn yn anodd i chi a'ch anwyliaid, ond mae'n ffactor amddiffynnol holl bwysig i chi'ch dau, ein staff a'r gymuned ehangach.
- 6) Gofynnir i chi beidio â dod â pharseli bwyd, blodau, balwnau heliwm ac ati. Gwneir hyn i leihau'r cyfle i'r feirws gael ei gario i mewn i'r cartref gofal a chael ei drosglwyddo'n ddjarwybod i'ch anwyliaid.
- 7) Bydd staff yn dangos i chi sut i gael gwared ar CDP yn ddiogel. Dylid tynnu CDP mewn trefn benodol: menig, ffedog ac yn olaf y masg. Rhaid i chi gael gwared ar y CDP yn y bin a ddarperir a diheintio eich dwylo yn syth ar ôl ei dynnu.
- 8) Wrth i chi adael yr adeilad, defnyddiwch yr hylif alcohol sy'n cael ei ddarparu i rwbio eich dwylo fel amddiffyniad ychwanegol.

Ffocws ar y Dyfodol

Byddwn bob amser yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran ymweliadau. I ddechrau, mae'r canllawiau'n caniatáu i bob preswlydd gael un ymwelydd dynodedig yr wythnos (dan do), mae hwn yn ddull rhagofalus er mwyn amddiffyn eich anwyliaid.

Os bydd y canllawiau hyn yn newid byddwn yn eu rhoi ar waith. Gallai hyn gynnwys:

- 1) rhoi'r gorau i ymweliadau os bydd cynnydd sydyn yn y feirws neu achos yn y gymuned neu'r cartref gofal.
- 2) ymestyn nifer yr ymwelwyr neu'r cyfnod amser, os byddwn yn parhau i weld lleihad yn y feirws.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am bob newid wrth iddo ddigwydd a sut mae'n effeithio ar ein preswylwyr ac arnoch chi fel aelod o'r teulu.

Holiadur Iechyd Ymwelwyr

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod ar gau i bob ymwelydd ac eithrio'r rhai hanfodol ers canol mis Mawrth. Diolch am eich cefnogaeth wrth beidio ag ymweld yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn gwybod bod hyn wedi bod yn anodd iawn, ond yn hanfodol ac rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn fawr.

Cynhelir ymweliadau yn y llofa ymwelwyr. Mae hyn yn lleihau'r risg o rywun sy'n asymptomatig yn dod â'r feirws yn ddyfnach i'r cartref gofal yn anfwriadol. Mae hwn yn fesur diogelwch holl bwysig i amddiffyn eich anwyliaid, y preswylwyr eraill a'n staff.

Gofynnir i chi ddarllen y wybodaeth isod a chytuno i'r camau gweithredu angenrheidiol y gofynnir i chi eu dilyn. Atebwch bob cwestiwn a llofnodwch y ddogfen ar y gwaelod.

1) Ydych chi wedi teimlo'n sâl yn ddiweddar – yn benodol, gyda pheswch, diffyg anadl, blinder, tymheredd neu chwydu neu ddolur rhydd?

Ydw / Nac ydw

2) Ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â rhywun, yn y 14 diwrnod diwethaf, sydd o bosibl â COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif? Ydw / Nac ydw

3) A yw eich meddyg teulu neu weithiwr proffesiynol arall yn y GIG wedi dweud wrthyhch na ddylech fod yn ymweld â chartref gofal?

Ydy / Nac ydy

Cofiwch, os byddwch yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw rai o'r cwestiynau uchod, bydd yn rhaid i chi ohirio eich ymweliad nes y byddwch wedi bod yn rhydd o symptomau am 14 diwrnod.

Nodwch eich manylion cyswllt: gall Iechyd y Cyhoedd ddefnyddio'r rhain fel rhan o'r strategaeth 'Profi a Diogelu', pe bai angen yn dilyn eich ymweliad â'r cartref gofal.

Rhif cartref neu ffôn symudol.....

Cyfeiriad....

Drwy lofnodi hyn, rydych yn cytuno y byddwch yn dilyn y gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau sydd gennym ar waith.

Diolch am eich cymorth.

Enw:

Dyddiad:

Ymweliad:

Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) ar gyfer Ymwelwyr (Cam tri)

Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i gyrraedd y cartref gan wisgo gorchudd wyneb. Os oes angen CDP pellach, caiff ei gyflenwi gan y cartref gofal.

Rhoi Cyfarpar Diogelwch Personol (CDP) ymlaen a'i dynnu i ffwrdd

Rhoi CDP ymlaen

Dylid rhoi CDP ymlaen cyn mynd i mewn i'r ystafell.

1. Cadwch eich dwylo i ffwrdd o'ch wyneb a gwisgwch gyfarpar diogelu personol.
2. Newidiwch fenig pan gânt eu rhwygo neu eu halogi'n drwm.
3. Y drefn ar gyfer rhoi'r cyfarpar ymlaen yw ffedog, masg llawfeddygol, cyfarpar diogelu'r llygaid (lle bo angen).

Mae'r drefn a roddir uchod yn un ymarferol; mae'r drefn ar gyfer rhoi'r cyfarpar ymlaen yn llai pwysig na'r drefn ar gyfer ei dynnu i ffwrdd a roddir isod.

Tynnu CDP

Dylid tynnu CDP gan ddilyn trefn sy'n lleihau'r posibilrwydd o groeshalogi.

Menig

1. Gafaelwch yn y tu allan i'r faneg gyda'r llaw arall sydd â maneg arni; a thynnwch y faneg i ffwrdd.
2. Daliwch y faneg sydd wedi'i thynnu yn y llaw sydd â maneg arni.
3. Llithrwrch fysedd y llaw sydd heb faneg arni o dan y faneg sy'n weddill wrth yr arddwrn.
4. Tynnwch y faneg i ffwrdd a'i thafu'n briodol.

Gŵn

1. Agorwch unrhyw fotymau neu ddatod unrhyw glymau.

2. Tynnwch y gŵn i ffwrdd o'r gwddf a'r ysgwyddau, gan gyffwrdd y tu mewn i'r gŵn yn unig.
3. Trowch y gŵn o chwith, a'i blygu neu ei rollo i mewn i fwndel a'i daflu.

Cyfarpar Diogelu'r Llygaid

1. I'w dynnu, gafaelwch yn y band pen neu'r clustddarnau a'i daflu'n briodol.
2. Masg Wyneb Llawfeddygol Gwrth-hylif
3. Tynnwch ar ôl gadael yr ardal gofal.
4. Bydd angen i chi ddatod neu dorri'r clymau gwaelod, yna'r clymau uchaf neu elastig a thynnu drwy afael yn y clymau'n unig a'i daflu fel gwastraff clinigol.

Er mwyn lleihau croeshalogi, dylid defnyddio'r drefn a amlinellir uchod hyd yn oed os nad yw'r holl eitemau CDP wedi'u defnyddio.

Cofiwch olchi / diheintio eich dwylo yn syth ar ôl cael gwared ar yr holl CDP.